# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 9 Ionawr 2017

Amser: 14.30 - 15.55

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3890

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Huw Irranca-Davies AC (Cadeirydd)<br>Dafydd Elis-Thomas AC<br>Nathan Gill AC<br>Dai Lloyd AC<br>David Melding AC |
| Tystion: | Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol<br>Emma Cordingley, Llywodraeth Cymru<br>Sarah Tully, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sian Giddins (Dirprwy Glerc)<br>Alys Thomas (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 444KB) Gweld fel HTML (153KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru): Sesiwn dystiolaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol.

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 3.1 SL(5)042 – Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2017

### 3.2 SL(5)044 – Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) 2017

3.0a Trafododd y Pwyllgor yr offerynnau ac roedd yn fodlon arnynt.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 4.1 SL(5)045 – Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017

4.1a Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac ymateb Llywodraeth Cymru.
4.1b Nododd yr ohebiaeth gan Gymdeithas yr Iaith a gwaith y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ynghylch y safonau iaith.
4.1c Cytunodd y Pwyllgor i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad.

### 4.2 SL(5)046 – Rheoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2016

4.2a Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, gan gytuno y dylid cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad.

## 5 Papur(au) i'w nodi

### 5.1 Bil Cymru: Ymateb Llywodraeth y DU i adroddiad Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi ar Fil Cymru

5.1a Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth y DU.

### 5.2 Bil Cymru: Gohebiaeth gan Lywodraeth y DU ynghylch cymal 60 o Fil Cymru

5.2a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch y mater.

### 5.3 Bil Cymru: Fframwaith cyllidol ar gyfer Cymru

5.3a Nododd y Pwyllgor y datganiad.

### 5.4 Galwad am dystiolaeth gan Bwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi: Dirprwyo pwerau

5.4a Nododd y Pwyllgor yr alwad am dystiolaeth.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn:

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru): Trafod y Dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.